**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2003 Rhif 815 (Cy.100)

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Rheoliadau Bwrdd Iechyd Lleol Powys (Swyddogaethau Ychwanegol) 2003

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Rhoddodd Rheoliadau Byrddau Iechyd Lleol (Swyddogaethau) 2003 (O.S. 2003/150 (Cy.20)) swyddogaethau penodedig i Fyrddau Iechyd Lleol a sefydlwyd ar gyfer pob ardal yng Nghymru yn unol ag adran 16BA o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977. Mae'r Rheoliadau hyn yn rhoi swyddogaethau ychwanegol i Fwrddd Iechyd Lleol Powys, sef swyddogaethau a gyflawnid gynt gan Ymddiriedolaeth Gofal Iechyd Gwasanaeth Iechyd Gwladol Powys ("yr ymddiriedolaeth"). Diddymwyd yr ymddiriedolaeth gan Orchymyn Ymddiriedolaeth Gofal Iechyd Gwasanaeth Iechyd Gwladol Powys (Diddymu) 2003 (O.S. 2003/817 (Cy.102)).

**NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES**

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2003 No. 815 (W.100)

# NATIONAL HEALTH SERVICE, WALES

## The Powys Local Health Board (Additional Functions) Regulations 2003

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Regulations)*

The Local Health boards (Functions) Regulations 2003 (S.I. 2003/150 (W.20)) conferred upon Local Health Boards established for all areas of Wales pursuant to section 16BA of the National Health Service Act 1977 certain specified functions. These Regulations confer upon Powys Local Health Board certain additional functions being functions previously undertaken by the Powys Health Care National Health Service Trust ("the trust"). The trust was dissolved by the Powys Health Care National Health Service Trust (Dissolution) Order 2003 (S.I. 2003/817 (W.20)).

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2003 Rhif 815 (Cy.100)

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Rheoliadau Bwrdd Iechyd Lleol Powys (Swyddogaethau Ychwanegol) 2003

*Wedi'u gwneud* *20 Mawrth 2003*

*Yn dod i rym* *1 Ebrill 2003*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 16BB(2), (3) a (5) a 126(4) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977 (**a**) drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1**. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Bwrdd Iechyd Lleol Powys (Swyddogaethau Ychwanegol) 2003 a deuant i rym ar 1 Ebrill 2003 ac maent yn gymwys i Gymru yn unig.

**Dehongli**

**2**. Yn y Rheoliadau hyn, onid yw'r cyd-destun yn mynnu fel arall -

ystyr "y Bwrdd" ("*the Board*") yw Bwrdd Iechyd Lleol Powys(**b**)

ystyr "y dyddiad perthnasol" ("*the relevant date*") yw 1 Ebrill 2003

ystyr "y Swyddogaethau Ychwanegol" ("*the Additional Functions*") yw -

(a) perchenogaeth a rheolaeth adeiladau a gwasanaethau ysbyty yn Ysbyty Bronllys, Bronllys, Powys LD3 0LU ac ysbytai

(a) 1977 p.49. Diwygiwyd adran 126(4) gan Ddeddf 1990, adran 65(2) a chan Ddeddf 1999, Atodlen 4, a pharagraff 37(6).

Mewnosodwyd adran 16BB gan adran 6 o Ddeddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002 (p.17)

(b) Sefydlwyd o dan adran 16BA(1) o Dddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977 gan O.S./2003/148 (Cy.18).

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2003 No. 815 (W.100)

# NATIONAL HEALTH SERVICE, WALES

## The Powys Local Health Board (Additional Functions) (Regulations 2003

*Made* *20th March 2003*

*Coming into force* *1st April 2003*

The National Assembly for Wales, in exercise of powers conferred upon it by sections 16BB(2), (3) and (5) and 126(4) of the National Health Service Act 1977(**a**) hereby makes the following Regulations:

**Citation, commencement and application**

**1**. These Regulations may be cited as the Powys Local Health Board (Additional Functions) Regulations 2003 and come into force on 1st April 2003 and apply to Wales only.

**Interpretation**

**2**. In these Regulations, unless the context otherwise requires -

"the Board" ("*y Bwrdd*") means the Powys Local Health Board(**b**)

"the relevant date" ("*y dyddiad perthnasol*")means the 1st April 2003

"the Additional Functions" ("*y Swyddogaethau Ychwanegol*") means -

(a) the ownership and management of hospital accommodation and services at Bronllys hospital, Bronllys, Powys LD3 0LU and

(a) 1977 c.49. Section 126(4) was amended by the 1990 Act, section 65(2) and the 1999 Act, Schedule 4, and paragraph 37(6).

Section 16BB was inserted by section 6 of the National Health Service Reform and Health Care Professions Act 2002 (c.17)

(b) Established under section 16BA(1) of the National Health Service Act 1977 by S.I./2003/148 (W.18).

cysylltiedig(**a**); a

(b) rheolaeth gwasanaethau iechyd cymunedol a ddarperir gan Ysbyty Bronllys, Bronllys, Powys, LD3 0LU a pherchenogaeth y tir a'r adeiladau cysylltiedig; ac

(c) swyddogaethau rheolwyr o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983(**b**).

**Swyddogaethau i'w harfer gan Fwrdd Iechyd Lleol Powys**

**3**. Mae'r Swyddogaethau Ychwanegol i'w harfer gan y Bwrdd o'r dyddiad perthnasol ymlaen.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**c**).

20 Mawrth 2003

Dirprwy Lywydd y Cynulliad Cenedlaethol

associated hospitals(**a**); and

(b) the management of community health services provided from Bronllys Hospital, Bronllys, Powys, LD3 0LU and the ownership of associated premises; and

(c) functions of managers under the Mental Health Act 1983(**b**).

**Functions to be exercised by Powys Local Health Board**

**3**. The Additional Functions are to be exercised by Board as from the relevant date.

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(**c**).

20th March 2003

*John Marek*

The Deputy Presiding Officer of the National Assembly

(a) Trosglwyddwyd asedau, hawliau a rhwymedigaethau Ymddiriedolaeth Gofal Iechyd Gwladol Powys i'r Bwrdd gan Orchymyn y Byrddau Iechyd Lleol (Trosglwyddo Eiddo, Hawliau a Rhwymedigaethau) (Cymru) 2003 (O.S. 2003/473 (Cy.63)).

(b) 1983 p.20 ("Deddf 1983"); mae i'r ymadrodd "rheolwyr" yr ystyr a roddir i "managers" gan adran 145(1) o Ddeddf 1983.

(c) 1998 p.38.

(a) The assets, rights and liabilities of the Powys Health Care National Health Boards (Transfer of Property, Rights and Liabilities)(Wales) Trust were transferred to the Board by the Local Order 2003 (S.I. 2003/473 (W.20)).

(b) 1983 c.20 ("the 1983 Act"); the expression "managers" has the meaning assigned to it by section 145(1) of the 1983 Act.

(c) 1998 c.38.

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2003 Rhif 815 (Cy.100)

## Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

Rheoliadau Bwrdd Iechyd Lleol Powys (Swyddogaethau Ychwanegol) 2003

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2003 No. 815 (W.100)

## NATIONAL HEALTH SERVICE, WALES

The Powys Local Health Board (Additional Functions) Regulations 2003

©℗ Hawlfraint y Goron 2003

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2003

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090697-7

9 780110 906973

£1.75

W104/04/03 ON